# Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

**2015 dccc 4**

**RHAN 6**

RHEOLI DATBLYGU ETC

*Penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio*

**31 Y Gymraeg**

(1) Mae adran 70 o DCGTh 1990 (penderfynu ar geisiadau: ystyriaethau cyffredinol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2), ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

“(aa) any considerations relating to the use of the Welsh language, so far as material to the application;”.

(3) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2ZA) Subsection (2)(aa) applies only in relation to Wales.”

(4) Nid yw’r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn addasu—

(a) pa un ai a yw sylw i’w roi i unrhyw ystyriaeth benodol o dan is-adran (2) o adran 70 o DCGTh 1990, neu

(b) y pwysau sydd i’w roi i unrhyw ystyriaeth y rhoddir sylw iddi o dan yr is-adran honno.